



# Canllaw Ailagor

(Rhieni a Disgyblion)

**Medi 2020**

## Gair gan y Pennaeth

Yn dilyn cyfnod digynsail nas gwelwyd ei debyg o'r blaen rydym bellach yn edrych ymlaen yn fawr iawn at symud at gyfnod newydd a chael croesawu'r holl ddysgwyr a staff yn ôl i Ysgol David Hughes ar ddechrau mis Medi.

Bu wythnos olaf y tymor diwethaf yn gyfle gwych i ni 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' gan ddatblygu gweithdrefnau a fydd yn hwyluso trefniadau'r tymor i ddod.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ein bwriad yw cychwyn proses raddol o agor ein drysau ym mis Medi fel bod pob dysgwr yn ôl yn llawn amser erbyn Medi'r 10<sup>fed</sup>. Bydd hyn wrth gwrs yn ddibynnol ar y sefyllfa leol o ran amodau iechyd cyhoeddus.

Er mwyn sicrhau diogelwch, adeiladu capasiti a datblygu gweithdrefnau byddwn yn agor yn raddol yn unol â'r tabl isod:

1/9/20	Diwrnod Cynllunio ar gyfer Staff
2/9/20	Diwrnod Cynllunio ar gyfer Staff + <b>Diwrnod Anwytho Blwyddyn 7</b>
3/9/20	Gwersi Blwyddyn 7 + Blwyddyn 11
4/9/20	Gwersi Blwyddyn 7 + Blwyddyn 11 + <b>Diwrnod Anwytho Blwyddyn 12</b>
7/9/20	Gwersi Blynyddoedd 7,11,12 + 13
8/9/20	Gwersi Blynyddoedd 7, 10,11,12 + 13
9/9/20	Gwersi Blynyddoedd 7, 8, 10,11,12 + 13
10/9/20	Pawb yn ôl

Wrth ailgychwyn ein blaenoriaeth fydd gwneud hynny mewn modd cyfrifol a diogel i bawb. Efallai y bydd rhai ohonoch yn bryderus am ddychwelyd ond gobeithio bydd y canllaw hwn yn tawelu eich meddyliau wrth i ni amlinellu'r amodau a'r trefniadau a fydd yn eu lle ar eich cyfer. Mae'r staff i gyd yn edrych ymlaen at estyn croeso cynnes iawn i chi gyd.

### Felly Diwrnod cyntaf pawb yn ôl fydd:

**Blwyddyn 7: Dydd Mercher, Medi'r 2il**

**Blwyddyn 8 : Dydd Mercher, Medi'r 9fed**

**Blwyddyn 9 : Dydd Iau, Medi'r 10fed**

**Blwyddyn 10 : Dydd Mawrth, Medi'r 8fed**

**Blwyddyn 11: Dydd Iau, Medi'r 3ydd**

**Blwyddyn 12 : Dydd Gwener, Medi'r 4ydd**

**Blwyddyn 13 : Dydd Llun, Medi'r 7fed**



**H.Emyr Williams (Pennaeth)**

## Paratoi ar gyfer dychwelyd

### Cyn gadael y tŷ dylech ddilyn y canllawiau hyn -

1. Ni ddylech ddod i'r ysgol os ydych yn arddangos symptomau nodweddiadol o COVID. Hefyd os oes unrhyw un arall sy'n byw yn eich tŷ neu yn eich teulu estynedig hefo symptomau, dylech aros adref a mynnu prawf cyn gynted â phosib.
2. Dylech wisgo gwisg ysgol arferol.
3. Dylech ddod ag offer ysgrifennu, cyfrifiannell a'ch llyfrau gwaith arferol mewn bag (a dillad Addysg Gorfforol ar ddiwrnod lle bydd gwers).
4. **Byddwch angen pecyn bwyd hyd at 10/9/20.** Darperir pecyn bwyd os ydych yn gymwys am ginio di-dâl. Bydd rhywfaint o fwyd poeth yn cael ei werthu yn y ffreutur o'r 10<sup>fed</sup> o Fedi ymlaen.
5. Dylech fynd i'r toiled a golchi eich dwylo yn drwyadl cyn gadael y tŷ.

### Teithio ac ar ôl cyrraedd:

Dylech fod wedi ein hysbysu drwy'r holiadur os ydych yn cyrraedd ar droed, mewn car neu gyda bws ysgol. Dylech gyrraedd y safle **cyn 8:45am**.

### Teithio ar fws

O ddydd Llun 27 o Orffennaf 2020, mae'n orfodol i wisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gofyniad yn berthnasol ar gyfer bob teithiwr 11 oed a throsodd. Os yw disgyblion yn mynd ar drafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o'u taith i'r ysgol, mae'n rhaid iddynt wisgo gorchudd wyneb. **Mae Cyngor Môn yn argymhell yn gryf y dylai pob disgybl ysgol uwchradd sy'n defnyddio trafnidiaeth ddynodedig o'r cartref i'r ysgol wisgo gorchudd wyneb** (heblaw am achosion lle mae gan y person ifanc penodol reswm meddygol i beidio gwneud).

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Cludiant-ysgol/Trefniadau-cludiant-ysgol-o-fis-Medi-2020.aspx>

**Ar y diwrnod cyntaf** :Ar ôl cyrraedd y safle rhaid mynd **yn syth** i'r man ymgynnull ar gyfer cofrestru. **RHAID CADW PELLTER CYMDEITHASOL o 2m oddi wrth BAWB arall BOB AMSER.** Bydd y manau ymgynnull i bawb y tu allan (os yw'r tywydd yn ffafriol) ac fe fydd arwyddion yn eich cyfeirio i'r man ymgynnull perthnasol.

Man Ymgynnull A : Cefn Bloc B ger y cae

Man Ymgynnull B : Iard Ganol - mynd yno heibio cefn Bloc B

Man Ymgynnull C : Maes Parcio o flaen y Neuadd Chwaraeon - mynd yno heibio congl bloc A

Man Ymgynnull D : Maes Pob Tywydd ger y Neuadd Chwaraeon - mynd yno heibio congl bloc A

Os yw'n glawio :

Neuadd (drwy'r ochr)

Ffreutur (drwy'r ochr)

Gampfa Genethod (drwy'r cefn) Ystafell Arholiad (drwy'r cefn)

Neuadd Chwaraeon (drwy'r brif fynedfa)

Neuadd Chwaraeon (drwy'r cefn)

## **Ar ôl y diwrnod cyntaf byddwch yn mynd yn syth i'r ystafell a nodwyd ar gyfer gwerau gyntaf y diwrnod hwnnw.**

### **HYLENDID A GLANHAU**

Bydd nifer o'r staff glanhau yn gweithio yr ysgol yn ystod y dydd yn ogystal â thim yn glanhau'r adeilad yn drwyadl ar ddiwedd pob diwrnod. Bydd toiledau ac ystafelloedd yn cael eu glanhau yn gyson drwy gydol y diwrnod. Rhoddir sylw arbennig i lanhau ardaloedd ac arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml. Bydd y manau hyn yn cael eu glanhau yn amlach nag arfer, gan gynnwys ystafelloedd ymolchi, canllawiau, byrddau, offer a dolenni drysau. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau ffreutur a'r amseroedd cinio gwahanol. Disgwylir i staff glanhau gynnal pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth staff addysgu a myfyrwyr bob amser.

Mae peiriant hylif gwrthfacteria wedi ei gosod ym mhob ystafell. Bydd pob disgybl yn golchi dwylo gyda'r hylif ar y ffordd i mewn ac allan o'r ystafell.

### **SALWCH YN YSTOD Y DYDD**

Os oes disgybl yn dangos unrhyw symptomau o salwch yn ystod y dydd byddwn yn cysylltu â chi a gofyn i chi gasglu eich plentyn ar unwaith.

Bydd disgyblion sy'n sâl yn cael eu hebrwng i un o'r cabanau tu allan (ar y ffordd tuag at y Ganolfan Chwaraeon) ac fe fydd disgwyl i'r rhiant gasglu'r plentyn o'r fan honno.

Pwysleisir unwaith eto na ddylai unrhyw ddisgybl ddod i'r ysgol yn y lle cyntaf os oes ganddo ef/hi neu unrhyw aelod o'r teulu neu deulu estynedig salwch o unrhyw fath.

### **YMDDYGIAD**

Gan y byddwn yn gweithio o dan amodau heriol i bawb, byddwn yn disgwyl ymddygiad rhesymol ac addas gan bawb ar bob achlysur. Mae cadw pellter cymdeithasol bob amser yn hanfodol ar gyfer diogelwch. Os bydd unrhyw ddisgybl yn parhau i ymddwyn yn amhriodol yn dilyn rhybudd ffurfiol gan aelod o'r Uwch Dîm Arwain, byddwn yn cysylltu gyda'r rhiant a gofyn iddynt gasglu y disgybl ar unwaith.

### **DIWEDD Y DYDD**

Bydd y disgyblion yn cael eu rhyddhau yn raddol ar ddiwedd y dydd a bydd disgwyl iddynt gadw pellter cymdeithasol o 2m wrth iddynt adael y safle. Bydd y disgyblion yn cael eu hebrwng o'r ystafelloedd dosbarth.

**CERDDED:** Bydd disgwyl i'r disgyblion sy'n cerdded adref adael y safle ar unwaith gan gadw pellter cymdeithasol ar hyd y daith adref. Bydd nifer o staff yn arolygu y llwybrau cerdded hyd at y giat ysgol ac yn cadw llygad ar y llwybrau tu allan i'r safle.

**BWS YSGOL:** Bydd y bysiau ysgol ar yr iard cyn i'r disgyblion ddod allan. Dylent fynd yn syth i'r bysiau i'r seddi fydd wedi eu clustnodi ar eu cyfer.

**CAR:** Mae profiad yn awgrymu y bydd nifer o'r disgyblion yn teithio mewn car i'r ysgol ac adref. Mae hyn yn gosod her i ni ar ddiwedd y diwrnod ysgol gan nad oes gofod digonol i'r holl geir. Bydd ceir rhieni yn cael eu cyfeirio at lwybr o amgylch adeilad yr ysgol mewn system un ffordd. Byddwch yn dilyn y ffordd lawr ochr y Fenai o'r ysgol ac yna'n dilyn y llwybr o amgylch cefn yr ysgol ac yn ôl ar hyd ymyl y caeau. Yn ddelfrydol

dylech fod yn disgwyl cyn i'r disgyblion gael eu rhyddhau am 3:20pm. Ni ddylai rhieni ddod allan o'u ceir. Efallai y byddai'n syniad i chi yrru neges destun i'ch plentyn (os oes ganddynt ffôn symudol) yn eu hysbysu lle rydych chi wedi parcio, fel y gallent ddod yn syth atoch ar ddiwedd y dydd. Bydd y ceir yn cael eu rhyddhau yn drefnus pan fydd y disgyblion wedi cyrraedd y ceir a'i bod yn ddiogel i bawb symud. Gofynnir yn garedig i chi fod yn amyneddgar gan y bydd rhaid disgwyl i bawb gyrraedd y ceir cyn eich rhyddhau er mwyn sicrhau diogelwch pawb.

### **Disgwyliadau presenoldeb o fis Medi 2020**

O fis Medi, bydd disgwyl i fwyafrif helaeth y disgyblion ddychwelyd i'r ysgol. Fodd bynnag, os ydych yn credu fod rheswm meddygol neu unrhyw reswm arall pam na all eich plentyn fynychu fe ddylech gysylltu ar unwaith hefo'r ysgol.

### **Grwpiau Cyswllt a phellhau cymdeithasol**

**Bydd yr holl oedolion ar y safle yn parhau i bellhau yn gymdeithasol oddi wrth eu gilydd a'r disgyblion ar bob achlysur.**

Er mai cyfyngedig fydd yr angen i fyfyrwyr barchu bellter cymdeithasol o fewn eu grwpiau cyswllt (contact groups) eu hunain, bydd disgwyl iddynt bellhau'n gymdeithasol oddi wrth pob oedolyn a myfyriwr arall mewn gwahanol grwpiau blwyddyn tan y nodir fod hynny'n ddiangen.

### **Grwpiau Cyswllt pob Blwyddyn**

Blwyddyn 7	:	Grŵp cyswllt Dosbarth Cofrestru
Blwyddyn 8	:	Grŵp Cyswllt Hanner Blwyddyn
Blwyddyn 9	:	Grŵp Cyswllt Hanner Blwyddyn
Blwyddyn 10	:	Grŵp Cyswllt Blwyddyn Gyfan
Blwyddyn 11	:	Grŵp Cyswllt Blwyddyn Gyfan
Blwyddyn 12	:	Grŵp Cyswllt Blwyddyn Gyfan
Blwyddyn 13	:	Grŵp Cyswllt Blwyddyn Gyfan

Cyn belled â bo'n rhesymol ymarferol, mae'r ysgol yn disgwyl i fyfyrwyr barchu pellter cymdeithasol wrth fynd i mewn neu allan o safle'r ysgol.

Ni fydd rhieni'n gallu dod i mewn i'r adeilad heb apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw.

Mae'r ysgol am barhau i ddefnyddio system gyfarfod dros y we er mwyn cefnogi rhyngweithio â myfyrwyr, teuluoedd, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill. Dim ond pan fydd hi'n ddiogel i wneud hynny y gallwn ddychwelyd i gynnal cyfarfodydd ar sail wyneb yn wyneb yn gyson. Mae'r mesur hwn wedi'i gynllunio i gyfyngu ar nifer y bobl sy'n dod i mewn i safle'r ysgol i helpu i leihau'r risg o drosglwyddo.

## Ystafell Ddosbarth

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd maint dosbarthiadau yn dychwelyd i'r niferoedd arferol o fis Medi. Fodd bynnag, trwy greu grwpiau cyswllt, mae myfyrwyr yn llawer mwy diogel wrth ddod i gysylltiad â llai o unigolion, a bydd yr ysgol yn rhoi mesurau ar waith i gyfyngu ar faint o amser y maent mewn cysylltiad ag eraill. Yn unol â'r arweiniad meddygol diweddaraf, bydd disgwyl i'r staff addysgu aros ym mlaen y dosbarth, lle bynnag bo hynny'n bosibl, a gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg ystafell ddosbarth, fel taflunydd i fodelu gwaith. Bydd hyn yn eu cynorthwyo i gynnal pellter cymdeithasol (o 2m) oddi wrth fyfyrwyr.

## Amserlen Gwersi

Byddwn yn gweithredu amserlen o dair gwrs ddwbl bob dydd er mwyn cyfyngu ar symudiad dysgwyr. Defnyddir yr amserlen newydd arferol fel sail i'r amserlen dros dro. Bydd y gwrsi dwbl ar sail y canlynol

Medi 3 + 4	:	WYTHNOS 1 Gwers 1, 3, 5
Medi 7	:	WYTHNOS 1 Gwers 1, 3, 5
Medi 14	:	WYTHNOS 1 Gwers 2, 4, 6
Medi 21	:	WYTHNOS 2 Gwers 1, 3, 5
Medi 28	:	WYTHNOS 2 Gwers 2, 4, 6

Er mwyn lleihau symudiad bydd cofrestru yn digwydd yng Ngwers 1 a 5.

Bydd amseroedd gwrsi yn amrywio ar gyfer pob blwyddyn er mwyn 'sdagro' amseroedd egwyl a chinio.

BLwyddyn 7: Bydd Tiwtoriaid Dosbarth Blwyddyn 7 yn eu cyfarfod am 10 munud ar ddiwedd pob dydd am y 3 wythnos gyntaf o'r tymor.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau ynghylch y trefniadau ar gyfer dechrau'r tymor dylech gysylltu drwy'r dulliau arferol:

01248 712287

[ydhpen@ynysmon.gov.uk](mailto:ydhpen@ynysmon.gov.uk)



Dilynwch ni ar TRYDAR  
Follow us on TWITTER  
@DavidHughesYDH

Hefyd mae'r Adrannau yn Trydar.

Also the Departments have Twitter accounts:



GWEFAN YSGOL DAVID HUGHES  
THE SCHOOL WEBSITE



[www.ysgoldavidhughes.org](http://www.ysgoldavidhughes.org)